**2. Hoffem gael gwybod rhagor am y dulliau a ddefnyddir gan eich adran i nodi arbedion mewn ffordd systematig yn barhaus. Hoffem hefyd gael nodyn sy'n dangos yn union sut y sicrhawyd y gostyngiad o £16.5 miliwn yn y dyraniadau refeniw i gyllideb yr economi a gwyddoniaeth, ac sy'n nodi a yw'r gostyngiadau wedi'u cyflawni drwy arbedion effeithlonrwydd neu ostyngiadau mewn cyllid. Byddai gennym ddiddordeb hefyd cael gwybod eich barn ynghylch a ellid bod wedi gwneud unrhyw rai o'r arbedion cyfredol yn gynharach.**

### **Cronfa Twf Economaidd Cymru**

Gwnaethoch sôn am Gronfa Twf Economaidd Cymru, y mae ei chyllideb wedi'i gostwng i sero er gwaethaf y ffaith iddi gael ei chynllunio i helpu i greu swyddi a threchu tlodi. Gwnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor y byddech yn gofyn am arian canolog i fusnesau penodol ar gyfer unrhyw raglenni yn y meysydd hyn yn y dyfodol. Nodoch hefyd eich bod wedi cynnal adolygiad o Gronfa Twf Economaidd Cymru.

**3. Byddem yn gwerthfawrogi rhagor o wybodaeth am faint o gymorth a allai fod ar gael o'r gyllideb ganolog ar gyfer prosiectau a allai fod wedi cael eu hariannu'n flaenorol drwy Gronfa Twf Economaidd Cymru. Hoffem hefyd gael copi o'r adolygiad yr ydych wedi'i gynnal o Gronfa Twf Economaidd Cymru.**

### **Dinas–ranbarthau ac Ardaloedd Menter**

Gwnaethom ofyn ichi ynghylch y dyraniadau a wnaed i ddinas-ranbarthau ac ardaloedd menter a sut y gwnaethoch asesu eu heffeithiolrwydd.

**4. Rydym yn edrych ymlaen at weld y wybodaeth y gwnaethoch ymrwmo i'w darparu am y prosiectau a'r gwariant hyd yma ym mhob un o'r ardaloedd menter, a gofynnwn eich bod yn edrych ar ffyrdd i gyflwyno data ar berfformiad a chyflawniadau pob ardal, er mwyn hwyluso gwaith craffu.**

#### **Twristiaeth a Digwyddiadau Mawr**

Rydym yn croesawu eich ymrwymiad i gynnal y dyraniad cyfalaf o £2 miliwn ar gyfer twristiaeth ac yn nodi bod y rhanddeiliaid y buom yn siarad â hwy fel rhan o'n hymchwiliad i dwristiaeth o'r farn bod y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth yn ddefnyddiol iawn. Nodwn hefyd fod eich cyllideb ar gyfer 2015-16 yn dangos dyraniad refeniw llai ar gyfer digwyddiadau mawr, yn unol â blaenoriaethau gwariant.

**5. Rydych wedi cytuno i roi dadansoddiad i'r Pwyllgor o brosiectau twristiaeth a ariannwyd drwy'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth, yn ogystal â'r rhai a ariannwyd drwy gynlluniau cyfalaf eraill. Cynigioch hefyd ddarparu rhestr o ddigwyddiadau mawr a gefnogwyd ledled Cymru gyda manylion am eu heffaith economaidd, gan gynnwys yn benodol yr effaith economaidd ar fusnesau Cymru.**

#### **Band Eang**

Mae tarddiad y cyllid cyfalaf ychwanegol o £10 miliwn ar gyfer Cyflymu Cymru yn aneglur o hyd. Gwnaethoch esbonio bod £12 miliwn wedi dod o

Lywodraeth y DU, gydag arian cyfatebol gan yr UE, ar gyfer cam mewnlenwi 1 cynllun Broadband Delivery UK.

6. Hoffai'r Pwyllgor gael eglurhad a yw'r £10 miliwn o gyllid cyfalaf a ddyrannwyd i Cyflymu Cymru yn 2015–16 yn wahanol i lefel y cyllid a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru pan ddyfarnwyd y contract i BT yn 2012. Hoffai'r Pwyllgor hefyd gael rhagor o fanylion am y cyllid a ddyrannwyd a'r canlyniadau a ddisgwylir o brosiect mewnlenwi cam 1, adolygiad Llywodraeth Cymru o Cyflymu Cymru a'r adolygiad annibynnol o waith Broadband Delivery UK. Byddai gennym ddiddordeb mewn gwybodaeth am sut y mae cynlluniau seilwaith band eang yng Nghymru yn gysylltiedig ag ardaloedd menter a mewnfuddsoddi.

### Trafnidiaeth

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y gwaith o baratoi'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn anghyson â phroses y gyllideb, gan fod dyraniadau'r gyllideb o ran trafndiaeth wedi'u gwneud cyn i'r cynllun gael ei gwblhau. Rydym hefyd yn dal yn ansicr ynglŷn â sut y mae'r Cynllun yn cael ei werthuso o ran ei gyfraniad at amcanion y Rhaglen Lywodraethu a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, yn hytrach nag asesu prosiectau unigol a'u heffaith.

7. Hoffem gael rhagor o wybodaeth am y cysylltiad rhwng y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a'r broses o bennu'r gyllideb a sut y mae'r cynllun yn ei gyfanrwydd yn cael ei werthuso o ran ei effaith ar Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'r Rhaglen Lywodraethu. At hynny, rydych eisoes wedi cytuno i anfon copi i'r Pwyllgor o adroddiad Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru ar ddulliau o gynllunio trafndiaeth strategol.

Sonloch wrthym am arbedion o rhwng £3 miliwn a £4 miliwn yr ydych wedi'u gwneud yn y gyllideb cynnal a chadw ffyrdd o ganlyniad i newid y drefn arolygu.

**8. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech rannu manylion â'r Pwyllgor am yr arbedion a wnaed yn y gyllideb cynnal a chadw ffyrdd o ganlyniad i newidiadau i'r drefn arolygu, gan gynnwys natur y newidiadau a sut yr arweiniodd hyn at yr arbedion y gwnaethoch gyfeirio atynt.**

Nodwn fod canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi costau amcangyfrifedig a ffynonellau cyllid ar gyfer prosiectau a nodir yn eu Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol. Fodd bynnag, gwnaethoch nodi na fyddai hyn yn ymarferol o ran y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol.

**9. Hoffem gael eglurhad pellach o ran pam ei bod yn anymarferol i Lywodraeth Cymru ddarparu costau amcangyfrifedig ar gyfer prosiectau o dan y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, o ystyried bod gofyn i awdurdodau lleol wneud hynny.**

Rydych wedi cytuno i egluro pa gyllideb a gâi ei defnyddio ar gyfer costau unrhyw her gyfreithiol yn ymwneud â ffordd liniaru'r M4. Edrychwn ymlaen at gael y wybodaeth honno, ond rydym yn dal yn bryderus am nifer o faterion eraill. Pan ysgrifennom atoch yn ystod yr haf, gofynnem ichi ddarparu manylion am unrhyw ddyraniadau yn y gyllideb ddrafft ar gyfer prosiect yr M4 o amgylch Casnewydd. Gwnaethoch esbonio yn y cyfarfod bod £7 miliwn o gyllid cyfalaf wedi'i ddyrannu i brosiect yr M4 ar gyfer 2015–16, ond nid oedd y wybodaeth honno yn eich papur. O ystyried maint a phwysigrwydd y prosiect, hoffem gael rhagor o fanylion am eich asesiad o fforddiadwyedd hirdymor y prosiect. Rydym yn deall efallai y bydd yn rhaid i chi weithio gyda'r Gweinidog Cyllid i ddarparu'r wybodaeth hon.

**10. Hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth am sut y bydd prosiect yr M4 yn cael ei ariannu ac ar ba sail yr ydych yn ystyried ei fod yn fforddiadwy.**

O ran Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, mae eich papur yn cyfeirio at rôl y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, ond yn ystod y cyfarfod gwnaethoch awgrymu bod y cyfrifoldeb am hyn yn rhan o'ch portffolio chi.

**11. Hoffai'r Pwyllgor gael eglurhad am eich rôl chi a rôl y Gweinidog Cyfoeth Naturiol o ran Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.**

Diolch ichi unwaith eto am gynorthwyo'r Pwyllgor wrth graffu ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2015-16. Edrychwn ymlaen at gael eich atebion i'r pwyntiau a godwyd yn y llythyr hwn.

Yn gywir,



William Graham AC, Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes

Copi at: Jocelyn Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid



**Y Pwyllgor Menter a Busnes  
Enterprise and Business Committee**

Huw Lewis AC  
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau  
Llywodraeth Cymru

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru  
National  
Assembly for  
Wales



21 Hydref 2014

Annwyl Weinidog

**Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015–16**

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Menter a Busnes ar 16 Hydref ac am ymateb i'r llythyr a anfonwyd gennyf ar 24 Gorffennaf 2014, a oedd yn gofyn am wybodaeth am wariant ataliol, polisiau allweddol, blaenoriaethu ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu a darpariaeth ar gyfer deddfwriaeth.

Mae'r gwaith craffu eleni wedi canolbwyntio'n bennaf ar flaenoriaethau'r gyllideb a gwerth am arian. Mae ein gwaith craffu wedi ystyried hefyd a yw eich polisiau wedi cyfrannu at gyflawni eich tair thema drawsbynciol, sef swyddi a thwf, cyrhaeddiad addysgol a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig.

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud nifer o argymhellion ichi eu hystyried ac ymateb iddynt.

Rydym hefyd yn anfon y llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid er mwyn llywio gwaith craffu strategol a chyffredinol y Pwyllgor hwnnw ar y gyllideb ddrafft. Bydd y llythyr hwn a'ch ateb chi yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

## Cylch gwaith y Pwyllgor – Addysg Bellach

Mae'n werth nodi'n glir fod addysg bellach yn bennaf o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sy'n gyfrifol am graffu ar ddysgu ymhlith pobl ifanc 14–19 oed. Fodd bynnag, mae sgiliau, cymwysterau galwedigaethol, dysgu yn y gymuned i oedolion a dysgu seiliedig ar waith oll o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Menter a Busnes. Felly, mae addysg bellach yn berthnasol i waith craffu'r Pwyllgor hwn, o ran ei berthynas â'r agenda sgiliau a'r economi.

**1. Gan fod y colegau addysg bellach yn un o'r darparwyr allweddol o ran dysgu seiliedig ar waith, hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o fanylion am yr effaith y bydd y gostyngiadau mewn cyllid yn ei chael ar allu colegau addysg bellach i ddarparu cyrsiau galwedigaethol.**

**2. Nodwn, yn ôl yr Aseiad Integredig Strategol o Effaith gan Lywodraeth Cymru, y bydd yr effaith ar ddysgwyr 19 oed a hŷn yn waeth na'r effaith ar rai 16–18 oed. Mae gan y Pwyllgor rai pryderon ynghylch yr effaith bosibl ar yr economi yng Nghymru a'r agenda sgiliau ac mae'n annog Llywodraeth Cymru i barhau i ystyried goblygiadau'r ffordd y mae wedi blaenoriaethu'r arian sydd ar gael.**

### Prentisiaethau

Yn sgil y gostyngiad mewn cyllid ar gyfer prentisiaethau, amcangyfrifodd y Dirprwy Weinidog a'i swyddogion y bydd nifer y rhai sy'n dechrau prentisiaethau o'r newydd yn disgyn i lefel o 17,000–19,000, o gymharu ag uchafbwynt o 28,000 ym mlwyddyn academiaidd 2012/13. Mynegwyd pryderon gan Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru y byddai nifer y dechreuwyr newydd yn gostwng yn fwy nag amcangyfrif y Dirprwy Weinidog, ond dywedodd y Dirprwy Weinidog y dylai'r £5 miliwn o arian ychwanegol

olygu bod modd cyrraedd yr amcangyfrif.

3. Hoffem gael sicrwydd bod ffigur y Dirprwy Weinidog o ran nifer y dechreuwyr newydd ar gyfer 2015/16, sef 17,000–19,000, wedi cael ei amcangyfrif yn gywir a gofynnwn hefyd am eglurhad o'r ffordd y caiff y ffigur hwn ei fonitro yn y dyfodol.

4. Mae'r uchafbwynt o ran dechreuwyr newydd a gofnodwyd ym mlwyddyn academaidd 2012/13, sef 28,000, llawer yn fwy na nifer y dechreuwyr newydd a gofnodwyd mewn unrhyw flwyddyn academaidd arall ers dechrau'r cynllun prentisiaeth. Hoffem gael cadarnhad a gynhaliwyd arfarniad datblygu cynaliadwy cyn i gynllun Prentisiaeth Llywodraeth Cymru gael ei roi ar waith.

5. Hoffem gael cadarnhad hefyd a oes cronfa wrth gefn ar gyfer arian ychwanegol os na chyrhaeddir yr amcangyfrif ar gyfer dechreuwyr newydd ym mlynnyddoedd academaidd 2014/15 neu 2015/16.

6. Hoffem ddadansoddiad o nifer amcangyfrifedig y dechreuwyr newydd ar gyfer 2015/16 yn y meysydd blaenoriaeth priodol (Prentisiaethau Uwch a phobl ifanc 16–24 oed) a'r meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth, fesul sector.

### Cydraddoldeb

Rydym yn pryderu am effeithiau negyddol posibl cynigion y gyllideb ar brentisiaethau i bobl dros 25 oed, yn enwedig dysgwyr sy'n fenywod.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i gynnal i werthuso effaith y gostyngiad mewn cyllid ar gyfer prentisiaethau yn 2015–16. Dangosodd yr asesiad hwn fod y sefyllfa rhwng y rhywiau ychydig yn fwy cyfartal erbyn hyn mewn prentisiaethau y mae menywod wedi bod yn flaenllaw ynddynt yn draddodiadol. Fodd bynnag, nid oedd fawr ddim

tystiolaeth i ddangos bod y sefyllfa rhwng y rhywiau wedi newid o gwbl mewn prentisiaethau y mae dynion wedi bod yn flaenllaw ynddynt yn draddodiadol.

**7. Hoffem gael rhagor o fanylion am sut yr ydych yn bwriadu monitro a gwerthuso effaith cynigion y gyllideb ar y cohort sy'n hŷn na 25 oed a'r anghydraddoldebau posibl rhwng y rhywiau.**

### **Twf Swyddi Cymru**

Mae cyllideb ddrafft 2015–16 yn dangos gostyngiad yn y cyllid ar gyfer Twf Swyddi Cymru i £9.3 miliwn. Yn ôl eich papur, bydd hyn yn arwain at 15% neu 600 yn llai o gyfleoedd yn 2015–16, er bod targed Llywodraeth Cymru o ddarparu 16,000 o gyfleoedd dros 4 blynedd wedi'i fodloni. Yn ystod y sesiwn graffu ar y gyllideb, dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r gostyngiad mewn cyllid yn arwain at lai o ddechreuwr newydd yn 2015–16, ac awgrymodd y byddai'r niferoedd yn lleihau rywfaint yn ystod y flwyddyn (2014–15).

Dywedodd y Dirprwy Weinidog yn ei thystiolaeth:

“We believe that the in-year cuts will cause around 1,000 fewer starts and around 600 otherwise; so, around 1,500 or 1,600.”

**8. Hoffem gael eglurhad ynghylch faint yn llai o ddechreuwr newydd a ragwelir; faint y bydd y niferoedd yn lleihau yn ystod y flwyddyn yn 2014–15, a faint y byddant yn lleihau yn 2015–16.**

**9. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb yn y ffordd y bydd y gostyngiad yn nifer y cyfleoedd yn effeithio ar elfennau gwahanol y rhaglen. Hoffem hefyd gael dadansoddiad o faint yn llai o gyfleoedd a ragwelir fesul elfen, o ran y sector preifat, y trydydd sector, hunangyflogaeth a graddedigion a chadarnhad a oes unrhyw un o'r elfennau hyn wedi'u blaenoriaethu yng nghyllid 2015–16.**

**10. At hynny, a oes unrhyw sectorau diwydiant penodol wedi'u blaenoriaethu o ran creu cyfleoedd Twf Swyddi Cymru?**

### **Cyllid Ewropeaidd**

Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod trafodaethau wedi'u cynnal â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) a'i fod yn cytuno â chynnydd yn y cyfraddau ymyrryd a fydd yn fodd i sicrhau rhagor o arian o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd nag a fyddai wedi bod yn bosibl fel arall. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod adolygiad ar raddfa fawr o brosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi'i gynnal a arweiniodd at ad-drefnu'r arian er mwyn canolbwyntio ar brosiectau penodol.

**11. Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth am y potensial ar gyfer cyfraddau ymyrraeth gwell a gafodd eu hail-negodi gyda WEFO a byddem hefyd yn croesawu gwybodaeth bellach am sut y defnyddiwyd cronfeydd Ewropeaidd i sicrhau mwy o werth am arian yn dilyn yr adolygiad o brosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop.**

### **Dysgu Seiliedig ar Waith yn y sector Gofal Cymdeithasol**

Hoffai'r Pwyllgor dynnu sylw at bwysigrwydd datblygu gweithlu gofal cymdeithasol a denu pobl ifanc yn arbennig i weithio yn y sector. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod camau'n cael eu cymryd yng nghyswllt cyd-fuddsoddiad mewn sgiliau a hyfforddiant ar ôl 19 oed gan y llywodraeth a chyflogwyr, ond mae'n credu y dylai'r grŵp oedran 16 i 18 oed hefyd gael ei dargedu ar gyfer dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau yn y sector gofal cymdeithasol. Rhoddodd y Dirprwy Weinidog ymateb cadarnhaol i'r awgrym o weithio gyda Fforwm Gofal Cymru ar y mater hwn, gan ddatgan ei hymrwymiad i gynnal trafodaethau â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ym maes iechyd a

gofal cymdeithasol.

**12. Byddem yn gwerthfawrogi cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau a gynhaliwyd gyda sefydliadau yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol ac yn Llywodraeth Cymru ar y mater o dargedu'r grŵp oedran 16–18 oed ar gyfer prentisiaethau dysgu seiliedig ar waith.**

### **Addysg Uwch**

Rydym yn ymwybodol o'r adolygiad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan yr Athro Syr Ian Diamond i gyllid addysg uwch yng Nghymru, yn ogystal â Bil Addysg Uwch (Cymru) sy'n cynnig newidiadau i'r drefn lywodraethu.

**13. Byddem yn dal yn hoffi cael eglurhad pellach am sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau a monitro, gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW), bod blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer y sector addysg uwch yn cael eu cyflawni, yn enwedig astudiaethau ôl-radd, ariannu gwaith ymchwil, STEM, pynciau drud, mentrau ehangu mynediad a monitro sut mae gwerth am arian yn cael ei gyflawni.**

### **Entrepreneuriaeth Ieuenctid**

Bydd y Gweinidogion yn ymwybodol o bwysigrwydd entrepreneuriaeth ieuenctid i'r Pwyllgor hwn ar ôl cynnal ymchwiliad a chyhoeddi adroddiad ar y pwnc hwn ym mis Tachwedd 2013.

Er ein bod yn gwerthfawrogi bod cyllid yn ei le, yn ôl y wybodaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog, nid oes cyllideb benodedig i gefnogi Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid.

**14. Byddem yn gwerthfawrogi rhagor o fanylion am sut y bydd Llywodraeth**

Cymru yn sicrhau bod Entrepreneuriaeth Ieuenctid yn cael blaenoriaeth mewn cyllidebau eraill a sut y caiff yr effaith ar hyrwyddo entrepreneuriaeth ieuenctid ei gwerthuso.

## Gyrfa Cymru

Cafwyd gostyngiad sylweddol yng nghyllideb Gyrfa Cymru o £10.5 miliwn yn 2015–16 (–34%) o gymharu â Chyllideb Atodol 2014–15. O ganlyniad i gynigion y gyllideb, rydych chi a'r Dirprwy Weinidog wedi sôn am yr angen am newid yng nghylch gwaith Gyrfa Cymru, gan newid ffocws i ganolbwyntio ar wasanaethau ar-lein.

15. Gyda'r Aelodau yn codi pryderon am symud i ffwrdd o wasanaethau wyneb-yn-wyneb at fwy o ddarpariaeth ar-lein, rydym yn croesawu cytundeb y Dirprwy Weinidog i adolygu'r sefyllfa os bydd y galw am wasanaethau wyneb-yn-wyneb yn fwy nag amcangyfrifon Llywodraeth Cymru.

16. Byddem yn hoffi rhagor o fanylion am sut yr ydych yn bwriadu gwerthuso a monitro effaith y toriadau yn y gyllideb ar y grwpiau hynny sy'n defnyddio gwasanaethau Gyrfa Cymru, yn enwedig yn sgil newid ffocws i ganolbwyntio ar wasanaethau ar-lein.

Diolch am gynorthwyo'r Pwyllgor yn ei waith craffu, ac edrychwn ymlaen at gael eich atebion i'r pwyntiau a godwyd yn y llythyr hwn cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "William Graham". The signature is written in a cursive style with a large, prominent initial 'W'.

William Graham AC

Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes

Copi at: Jocelyn Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid





**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**  
**Health and Social Care Committee**

**Mark Drakeford AC**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Vaughan Gething AC**

Y Dirprwy Weinidog Iechyd

24 Hydref 2014

Annwyl Weinidogion,

**Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2015–16**

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 16 Hydref 2014 i drafod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015–16. Yn ystod y cyfarfod trafododd yr Aelodau nifer o themâu sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor, gan gynnwys rhai materion iechyd a gofal cymdeithasol sydd hefyd yn berthnasol i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Diben y llythyr hwn yw tynnu sylw at y materion allweddol a nodwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod ei waith craffu. Mae'r rhain i'w gweld yn Atodiad A. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r materion a godwyd wedi cael eu labelu yn unol â phedair egwyddor craffu ariannol da: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian, a phroses y gyllideb.

Bydd y llythyr hwn yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Cyllid i gynorthwyo ei waith craffu troswaol ar y Gyllideb Ddrafft. Byddai'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn croesawu cael y wybodaeth ychwanegol y gofynnir amdani yn Atodiad A cyn gynted â phosibl er mwyn bod yn sail i'r drafodaeth derfynol ar Gyllideb Ddrafft 2015–16 Llywodraeth Cymru.

Bae Caerdydd  
Cardiff Bay  
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 2089 8403


**Tudalen y pecyn 133**  
E-bostwch y Pwyllgor Cyllid [HSCCommittee@wales.gov.uk](mailto:HSCCommittee@wales.gov.uk)

Trydar/Twitter: [@iechyd\\_senedd](https://twitter.com/iechyd_senedd) / [@seneddhealth](https://twitter.com/seneddhealth)

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Bydd y llythyr hefyd yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg sydd, at ddiben defnyddio eich amser yn effeithiol, wedi gofyn i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol arwain ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol (gweler y llythyr yn Atodiad B). Gan nad oedd amser yn caniatáu i Aelodau godi'r cwestiynau a ofynnir yn y llythyr yn Atodiad B, byddai'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ddiolchgar o gael ateb ysgrifenedig gennych i'r cwestiynau hyn.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "David F. Rees." The signature is written in a cursive style.

**David Rees AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Cc:**

Jocelyn Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Ann Jones AC, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

## ATODIAD A: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2015–16 – materion allweddol a nodwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

### 1. Dyranid refeniw ychwanegol ar gyfer gwasanaethau'r GIG yn 2015–16

*(Egwyddor: blaenoriaethu)*

Mae'r newid mwyaf yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2015–16 yn deillio o ddyranid ychwanegol o £225 miliwn yn unol â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru i gefnogi'r GIG yng Nghymru. At ei gilydd, mae Cyllideb Ddrafft 2015–16 yn cynnwys arian refeniw ychwanegol o £273 miliwn (4.8%) ym Maes Rhaglenni Gwariant Refeniw Cyflawni'r GIG ar gyfer 2015–16 o gymharu â 2014–15.<sup>1</sup> Nid yw'r newid hwn yn adlewyrchu'r cyhoeddiad o £200 miliwn y bwriedir ei ddyrannu i'r GIG yn 2014–15 drwy gyfrwng y Gyllideb Atodol nesaf.<sup>2</sup>

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod casgliad adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sy'n nodi mewn cyd-destun o gynnydd mewn costau, cynnydd yn y galw, poblogaeth sy'n heneiddio, a thwf yn nifer y bobl sy'n dioddef o gyflyrau cronig, bod angen ymateb arloesol a chyllid ychwanegol er mwyn i'r GIG barhau i ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel.<sup>3</sup> Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod bod y dyranid refeniw ychwanegol ar gyfer 2015–16 yn adlewyrchu'r amcangyfrifon a amlinellwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei waith ar gyllid y GIG yn y blynyddoedd diwethaf.<sup>4</sup> Yn ogystal, mae cysylltiad agos rhwng y cyllid ychwanegol o £200 miliwn a gyhoeddwyd ar gyfer 2014–15 a'r amcangyfrif diweddaraf o fwllch cyllido £198 miliwn yn y flwyddyn gyfredol. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyllid ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2014–15 a 2015–16.

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r pwyslais yn adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield ar bwysigrwydd gwelliannau mewn effeithlonrwydd, cynhyrchiant a darparu gwasanaethau i sicrhau dyfodol hirdymor y GIG yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r farn hon, a barn Archwilydd Cyffredinol Cymru, sydd wedi nodi y bydd "yn anodd i GIG Cymru wneud cynnydd heb newid

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Ddrafft 2015-2016 Blaenoriaethau i Gymru](#), Medi 2014

<sup>2</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod o Drafodion y Cyfarfod Llawn](#), 30 Medi, 2014

<sup>3</sup> Ymddiriedolaeth Nuffield, [Degawd o galedi yng Nghymru? Y pwysau cyllido yn wynebu'r GIG yng Nghymru hyd at at 2025/26](#), Mehefin 2014

<sup>4</sup> Archwilydd Cyffredinol Cymru, [GIG Cymru: Trosolwg o Berfformiad Ariannol a Pherfformiad Gwasanaethau 2013-14](#), 13 Hydref 2014

trawsnewidiol".<sup>5</sup> Yn hynny o beth, byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y bydd yn monitro ac yn sicrhau bod yr arian refeniw ychwanegol ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2014–15 a 2015–16 yn arwain at ddiwygio gwasanaethau'n ystyrlon a chanlyniadau cadarnhaol i gleifion, yn hytrach na chael ei ddefnyddio gan fyrddau iechyd i fynd i'r afael â diffygion ar ddiwedd blwyddyn yn deillio o fodelau gofal heb eu newid.

## 2. Fformiwla dyrannu adnoddau (Townsend) a dosbarthu cyllid ychwanegol

*(Egwyddor: proses y gyllideb/gwerth am arian)*

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y bydd tua £200 miliwn o'r £225 miliwn o gyllid refeniw ychwanegol ar gyfer 2015–16 yn cael ei ddyrannu yn bennaf drwy'r fformiwla Townsend diwygiedig, gan gyfeirio at wybodaeth yn y cynlluniau ariannol tymor canolig. Dywedodd y Gweinidog y bydd y dyraniadau'n cael eu gwneud mor hwyr â phosibl yng nghylch y gyllideb er mwyn i benderfyniadau gael eu seilio ar y tueddiadau diweddaraf o ran y boblogaeth a'r data diweddaraf sy'n seiliedig ar anghenion.<sup>6</sup> Bydd hyn yn dod i ben cyn i lythyrau dyraniad ffurfiol gael eu hanfon ym mis Ionawr 2015.<sup>7</sup>

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio fformiwla dryloyw sy'n seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau dull cynaliadwy o ddyrannu cyllid i fyrddau iechyd yn y dyfodol. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o fanylion ar ddosbarthiad y cyllid ychwanegol hwn ar ôl i hynny gael ei wneud, gan gynnwys gwybodaeth am sut y mae cynlluniau tymor canolig integredig byrddau iechyd wedi dylanwadu ar benderfyniadau.

## 3. Lleihad mewn cyllid llywodraeth leol a'i effaith

*(Egwyddor: blaenoriaethu/fforddiadwyedd)*

Mae'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2015–16 yn amlinellu gostyngiad o £154 miliwn (3.5%) yn y Cymorth Ariannol ar gyfer Gweithredu gan Lywodraeth Leol. Noda'r ddogfen naratif sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb Ddrafft fod £10 miliwn ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i lywodraeth leol er mwyn cydnabod y

---

<sup>5</sup> Archwilydd Cyffredinol Cymru, [GIG Cymru yn mantoli'r Gyllideb yn 2013-14 er gwaethaf perfformiad cymysg yn erbyn targedau gwasanaeth](#), Hydref 13, 2014

<sup>6</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Drafft o Gofnod y Trafodion \[para 16\]](#) 16 Hydref 2014

<sup>7</sup> Ibid, [HSC\(4\)-24-14 Papur 5 - tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd](#), 16 Hydref 2014

pwysau y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn eu hwynebu o ganlyniad i'r gostyngiad yn y gyllideb gyffredinol. Noda hefyd y byddai cyllid o £67.5 miliwn yn cael ei gynnal o fewn y *Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol* i gefnogi trawsnewid polisi sy'n sail i ddarparu gofal cymdeithasol yng Nghymru.<sup>8</sup>

Mae Aseiad Effaith Strategol Integredig Llywodraeth Cymru sy'n cyd-fynd â dogfennau'r Gyllideb Ddrafft yn tynnu sylw at y canlynol:

- mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn wynebu cynnydd gwirioneddol yn y galw;
- mae nifer y plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn cynyddu;
- mae nifer y bobl hŷn a chanddynt anghenion gofal cymhleth yn cynyddu;
- mae nifer y bobl sy'n cofrestru gydag awdurdodau lleol fel rhai ag anabledd dysgu yn cynyddu.<sup>9</sup>

Mae'r Pwyllgor yn pryderu, felly, y bydd y gostyngiad sylweddol yn y dyraniad llywodraeth leol ar gyfer 2015–16 yn cael effaith negyddol ar ddarparu gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu y gallai gostyngiad effeithio ar ddarparu gwasanaethau llywodraeth leol sy'n cefnogi gwell iechyd ac adferiad corfforol a meddyliol o weithdrefnau meddygol. At hynny, o ystyried y cysylltiadau pwysig rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai'r gostyngiadau sylweddol arfaethedig yn y dyraniad llywodraeth leol roi pwysau ar gynaliadwyedd hirdymor gwasanaethau iechyd yn ogystal â gofal cymdeithasol.

#### 4. Y Gronfa Gofal Canolraddol

*(Egwyddor: blaenoriaethu/gwerth am arian)*

Un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw sicrhau mwy o integreiddio o ran iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r agenda integreiddio wedi cael ei hannog drwy greu'r Gronfa Gofal Canolraddol ("y Gronfa"), ymysg pethau eraill.

---

<sup>8</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Ddrafft 2015-2016 Blaenoriaethau i Gymru](#), Medi 2014

<sup>9</sup> Ibid, [Cyllideb Ddrafft 2015-16 Aseiad Effaith Strategol Integredig](#), 30 Medi, 2014

Roedd y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2014–15 yn cynnwys £35 miliwn o arian refeniw o fewn y dyraniad llywodraeth leol a chyfalaf gwerth £15 miliwn yn y gyllideb tai ac adfywio i greu'r Gronfa. Ei nod oedd meithrin trefniadau cydweithio effeithiol ar draws y meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, tai, y trydydd sector a'r sectorau annibynnol a fyddai'n:

"helpu pobl i gadw eu hannibyniaeth ac aros yn eu cartrefi eu hunain [...] osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty, derbyniadau amhriodol i ofal preswyl, yn ogystal ag osgoi oedi wrth ryddhau o'r ysbyty".<sup>10</sup>

Yn unol â'r bwriad a nodwyd yn flaenorol gan y Gweinidog, gwnaed y dyraniad am flwyddyn yn unig ac nid oes dim darpariaeth ar gyfer y Gronfa yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2015–16.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog a ddywedodd fod rhai byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, yn absenoldeb y Gronfa yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, ac o ystyried yr arbedion a gyflawnir yn sgil ei defnyddio, yn bwriadu dyrannu cyllid o fannau eraill i barhau â'r gwaith a ysgogwyd gan y Gronfa. Eglurodd y Gweinidog hefyd y bydd yn ystyried a allai rhan o'r cyllid refeniw ychwanegol gwerth £25 miliwn sydd heb ei ddyrannu ar gyfer gwasanaethau'r GIG ar gyfer 2015–16 o bosibl gael ei ddefnyddio i ariannu gwasanaethau y profwyd eu bod yn llwyddiannus gan y Gronfa yn 2014–15.<sup>11</sup>

Er bod y Pwyllgor yn cydnabod na all Llywodraeth Cymru ariannu pob menter yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae'n pryderu na ddylai'r gwaith da a alluogwyd gan y Gronfa gael ei gollu yn absenoldeb y dyraniad penodol hwn. Mae blaenoriaethu'r mathau hyn o fentrau arloesol ac integredig sy'n arbed arian, ym marn y Pwyllgor, yn un o'r prif ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru gyflawni'r broses ddiwygio sydd ei hangen i sicrhau gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy. Yn y tymor byr, byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth gan y Gweinidog ynghylch sut y bydd yn monitro ac yn sicrhau y bydd y camau cadarnhaol a gymerwyd o ganlyniad i fodolaeth y Gronfa yn parhau ar ôl i'w chyllid ddod i ben ar ddiwedd 2014–15. Yn y tymor hwy, byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad am a fydd y £25

---

<sup>10</sup> Datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, [Y Gronfa Gofal Canolraddol](#), 20 Mai, 2014

<sup>11</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Drafft o Gofnod y Trafodion \[paragraffau 88-90\]](#), 16 Hydref 2014

miliwn sydd heb ei ddyrannu yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau gofal canolraddol.

## 5. Gwariant ataliol

*(Egwyddor: blaenoriaethu/gwerth am arian)*

Mae'r Gweinidog yn amcangyfrif bod £105 miliwn, sef 2% o gyfanswm cyllideb refeniw y maes Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn canolbwyntio ar atal problemau ac ysgafnhau'r galw am wasanaethau yn y dyfodol. Drwy ofyn am wybodaeth am ddyraniadau ar gyfer gwasanaethau ataliol, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod atal yn elfen sy'n gynwysedig mewn sawl maes gwariant iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Dyweddodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor fod ystod o fentrau traws-sectoraidd a thraws-adrannol ar waith, gan gynnwys y Rhaglen Heneiddio'n Iach a chynlluniau atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff. Cyfeiriodd hefyd at bwysigrwydd y rhaglen imiwneiddio fel rhan o'r agenda ataliol. Aeth y Dirprwy Weinidog ymlaen i ddweud bod cydnabyddiaeth bod angen deialog ar draws adrannau a sefydliadau partner o ran yr agenda ataliol.<sup>12</sup>

Mae'r Pwyllgor yn croesawu sicrwydd y Dirprwy Weinidog bod gwaith yn y maes hwn yn symud i'r cyfeiriad cywir. Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn nodi ei sylw bod cyflymder y newid yn parhau i fod yn her. At hynny, mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai'r gostyngiadau yng nghyllideb llywodraeth leol leihau'r gwariant cyffredinol ar wasanaethau ataliol gan fod gwasanaethau awdurdodau lleol yn aml yn ataliol o ran eu natur. Er mwyn diogelu cynaliadwyedd y systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol, mae'r Pwyllgor yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ymdrechu'n galetach yn y maes hwn a chanolbwyntio ar y trawsnewidiad sydd ei angen o ran dylunio gwasanaethau er mwyn newid o ddull adweithiol i ddull rhagweithiol.

## 6. Cyfalaf

*(Egwyddor: fforddiadwyedd)*

Yn 2015–16, bydd gostyngiad o £65 miliwn yng nghyfanswm y dyraniadau cyfalaf ar gyfer Maes Rhaglenni Gwariant Cyflawni'r GIG, sef gostyngiad o 23% o gymharu â'r ffigurau diweddaraf ar gyfer 2014–15. Ym mhapur y Gweinidog

---

<sup>12</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Drafft o Gofnod y Trafodion \[paragraffau 120-122\]](#), 16 Hydref 2014

i'r Pwyllgor dywedir bod hyn wedi digwydd o ganlyniad i gyllid afreolaidd a ddarparwyd yn 2014–15 nad yw'n cael ei gario ymlaen i 2015–16.<sup>13</sup>

Er mwyn ymateb i'r gostyngiad yn y gyllideb gyfalaf, eglurodd y Gweinidog i'r Pwyllgor y bydd ymarfer blaenoriaethu yn cael ei gynnal ar gyfer prosiectau cyfalaf. Dywedodd ei bod yn debygol o fod yn ofynnol i bob cais am gyllid cyfalaf yn y dyfodol ddangos ei allu i sicrhau arbedion refeniw a newid mewn gwasanaeth cyn cael ei gymeradwyo.<sup>14</sup> Ceisiodd y Gweinidog i roi sicrwydd i'r Pwyllgor fod anghenion cyllid cyfalaf y cynlluniau ad-drefnu gwasanaethau yng Nghymru yn parhau i fod yn fforddiadwy ac na fu unrhyw newid mewn perthynas ag argaeledd cyllid canolog ar gyfer Canolfan Gofal Arbenigol a Chritigol Gwent.<sup>15</sup> Aeth y Gweinidog ymlaen i fynegi ei siom nad yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa eleni na'r flwyddyn nesaf i gynyddu'r cyllid cyfalaf dewisol. Yn gysylltiedig â hyn, dywedodd os bydd unrhyw danwariant cyfalaf yn dod i'r amlwg yn ystod 2015–16 y bydd yn ystyried dyrannu'r cyllid yn uniongyrchol i Fyrddau Iechyd er mwyn adnewyddu cyfarpar.<sup>16</sup>

Mae papur y Gweinidog i'r Pwyllgor yn cyfeirio at fynd ar drywydd dulliau cyllido arloesol gan sefydliadau iechyd perthnasol, a'r mwyaf datblygedig o'r rhain yw menter Ymddiriedolaeth GIG Felindre i ariannu canolfan ganser arbenigol newydd. Nododd hefyd fod trafodaethau ar y gweill i ymchwilio i hyfywedd defnyddio modelau arloesol i ariannu datblygiadau i'r ystâd gofal sylfaenol, a bod nifer o fyrddau iechyd unigol bellach yn cynnig syniadau.<sup>17</sup>

Mae'r Pwyllgor yn pryderu am y gostyngiad cyffredinol mewn cyllid cyfalaf a byddai'n croesawu gwybodaeth bellach am sut y bydd yr ymarfer blaenoriaethu cyfalaf newydd yn gweithio'n ymarferol. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith yr ymchwilir i ddulliau ariannu arloesol a bydd yn cymryd diddordeb brwd mewn polisi a datblygiadau deddfwriaethol yn y dyfodol a fydd yn angenrheidiol i fod yn sail i'r modelau ariannol hyn.

---

<sup>13</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [HSC\(4\)-24-14 Papur 5 - tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd](#), 16 Hydref 2014

<sup>14</sup> Ibid, [Drafft o Gofnod y Trafodion \[para 105\]](#), 16 Hydref 2014

<sup>15</sup> Ibid, [Drafft o Gofnod y Trafodion \[paragraffau 108-110\]](#), 16 Hydref 2014

<sup>16</sup> Ibid, [Drafft o Gofnod y Trafodion \[para 115\]](#), 16 Hydref 2014

<sup>17</sup> Ibid, [HSC\(4\)-24-14 Papur 5 - tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd](#), 16 Hydref 2014



## 7. Gwasanaethau iechyd meddwl a'r cyllid a glustnodir

*(Egwyddor: blaenoriaethu/proses y gyllideb)*

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl wedi'i gynnwys o fewn y dyraniadau iechyd meddwl sydd wedi'u clustnodi ar gyfer byrddau iechyd. Yn gynwysedig yn hyn mae'r cyllid ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), ond nid yw gwariant ar CAMHS wedi'i glustnodi ar wahân.

Yng ngoleuni cyfeiriadau blaenorol at gyfyngiadau monitro cydymffurfiaeth â'r dyraniadau iechyd meddwl wedi'u clustnodi, mae'r Pwyllgor yn croesawu adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o'r dull clustnodi ac yn edrych ymlaen at ei gasgliadau yn 2015. Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw'r Gweinidog yn dymuno achub y blaen ar gasgliadau'r adolygiad, ond mae'n cwestiynu ymarferoldeb cyflwyno swm wedi'i glustnodi o fewn swm wedi'i glustnodi. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ffocws y Gweinidog ar sicrhau canlyniadau da i gleifion yn hytrach nag aros yn gaeth i unrhyw fodel cyllido penodol. At hynny, mae'r Pwyllgor yn croesawu sicrwydd y Gweinidog y bydd ei ffocws ar CAMHS yn ddi-ildio ac y bydd gwasanaethau'n cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad.<sup>18</sup> Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn helpu i lywio ymchwiliad presennol y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i CAMHS.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o fanylion ynghylch dyrannu arian i'r maes iechyd meddwl gan ei bod yn ymddangos fod gwybodaeth wedi cael ei chyflwyno mewn fformat gwahanol yn nogfennau'r Gyllideb Ddrafft eleni. Yn ogystal, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad ynghylch a oedd y dyraniad wedi'i glustnodi ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl wedi cynyddu yn unol â chwyddiant ers ei sefydlu.

## 8. Deddfwriaeth

*(Egwyddor: fforddiadwyedd/gwerth am arian)*

Mae rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ym maes iechyd a gofal cymdeithasol wedi bod yn uchelgeisiol yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Mae Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013, a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i gyd yn

---

<sup>18</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Drafft o Gofnod y Trafodion \[para 51\]](#), 16 Hydref 2014

ddeddfau y mae darnau sylweddol o is-ddeddfwriaeth yn deillio ohonynt ac y mae angen cyllid arnynt. Yn ogystal, caiff cyllid ei ddyrannu ar gyfer darpariaethau sydd wedi'u cynnwys ym Mesur Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008 a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Mae papur y Gweinidog yn nodi y bydd cynigion ar gyfer deddfwriaeth ym meysydd iechyd y cyhoedd a rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau cymdeithasol yn creu gwariant yn ystod y flwyddyn ariannol 2015–16, ond bod gwaith yn mynd rhagddo i asesu eu heffaith ariannol bosibl yn y blynyddoedd dilynol. Bydd y Pwyllgor yn cymryd diddordeb brwd yn agweddau ariannol y ddau Fil os cânt eu cyflwyno a'u cyfeirio i'w hystyried, yn ôl y disgwyl, yn ystod 2015.

Mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae papur y Gweinidog yn datgan y bydd rhagor o waith ar asesu costau a manteision ei gweithredu yn cael ei wneud wrth i is-ddeddfwriaeth berthnasol gael ei datblygu. Aiff ymlaen i ddweud:

“The outcomes of this work should be viewed against the broader background of a system developed to be revenue-neutral through shifting the focus and burden of cost towards supporting well-being, earlier intervention and citizen voice and away from late-stage, high intensity, intrusive and high cost interventions”.<sup>19</sup>

Mae'r papur hefyd yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu tair blynedd o gyllid trosiannol – gan gynnwys £3 miliwn yn 2015–16 – i lywodraeth leol a'i phartneriaid i'w cynorthwyo i dalu costau mabwysiadu ffordd newydd o weithio a gyflwynwyd gan y Ddeddf. Mae'r Pwyllgor wedi ymrwmo i ystyried y rheoliadau sy'n deillio o'r Ddeddf a bydd yn cadw llygad barcud ar effaith debygol y rheoliadau ar gapasiti awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau, yn enwedig yn wyneb y gostyngiadau yn y gyllideb a drafodwyd yn adran 3 o'r atodiad hwn.

## 9. Symud gwasanaethau o ysbytai i'r gymuned

*(Egwyddor: fforddiadwyedd/gwerth am arian)*

Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod symud gwasanaethau o ofal eilaidd i ofal cymunedol a sylfaenol yn amcan strategol allweddol i Lywodraeth Cymru. Nododd y Gweinidog ei fod yn ystyried a oes modd defnyddio'r cyllid

---

<sup>19</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [HSC\(4\)-24-14 Papur 5 - tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd](#), 16 Hydref 2014

refeniw ychwanegol gwerth £25 miliwn sydd heb ei ddyrannu ar gyfer gwasanaethau'r GIG ar gyfer 2015–16 i sicrhau cynnydd pellach mewn perthynas â'r nod strategol hwn, er gwaethaf y galwadau eraill ar y swm hwn sydd heb ei ddyrannu ar hyn o bryd.<sup>20</sup>

Cydnabu'r Gweinidog fod gwasanaethau gofal sylfaenol wedi derbyn llai o arian yn y flwyddyn ariannol 2015–16 fel cyfran o gyfanswm y gyllideb nag yn y blynyddoedd blaenorol, ond nododd yn nhermau arian parod eu bod wedi derbyn mwy o arian nag mewn blynyddoedd blaenorol oherwydd bod mwy o arian wedi cael ei ddyrannu i iechyd a gwasanaethau cymdeithasol nag a wnaed yn y gorffennol. Roedd hefyd yn cydnabod nad oedd symud gwasanaethau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol yn dasg hawdd, gan nodi ei bod yn rhaid i'r ysgogiad ar gyfer hyn ddod nid yn unig oddi wrth fyrddau iechyd sy'n ceisio gwthio gwasanaethau o ysbytai i'r gymuned, ond hefyd o'r maes gofal sylfaenol a fydd yn cymryd cyfrifoldeb dros y gwasanaethau hyn.<sup>21</sup>

O ystyried y pwyslais a roddir gan Lywodraeth Cymru ar bwysigrwydd symud gwasanaethau o ysbytai i'r gymuned ar gyfer cynaliadwyedd gwasanaethau, mae'r Pwyllgor yn galw ar Weinidogion i weithio gyda byrddau iechyd i sicrhau bod y newid yn y polisi yn cael ei adlewyrchu gan y newid angenrheidiol mewn cyllidebau.

## 10. Arbedion effeithlonrwydd

*(Egwyddor: fforddiadwyedd/gwerth am arian)*

Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid, mae Conffederasiwn GIG Cymru yn rhybuddio:

“While the efficiency savings made by the NHS are significant, the annual achievement has been gradually diminishing year on year, a reflection that ‘doing more of the same’ will not deliver the level of cost reductions required to contend with the anticipated increased demands and costs of running NHS services going forward”.<sup>22</sup>

Nododd adroddiad diweddar Archwilydd Cyffredinol Cymru *GIG Cymru: Trosolwg o Berfformiad Ariannol a Pherfformiad Gwasanaethau 2013–14*:

---

<sup>20</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Drafft o Gofnod y Trafodion \[para 45\]](#), 16 Hydref 2014

<sup>21</sup> Ibid, [Drafft o Gofnod y Trafodion \[paragraffau 143-145\]](#), 16 Hydref 2014

<sup>22</sup> Ibid, [FIN \(4\) - 15-16WGDB13 Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gonffederasiwn GIG Cymru](#), Medi 2014

"...fod modd adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma a nodir gan Ymddiriedolaeth Nuffield a gwella effeithlonrwydd ymhellach ond mae ein dadansoddiad ein hunain yn awgrymu y byddai'n anodd iawn cyflawni'r amcanestyniadau mwy optimistaidd ar gyfer effeithlonrwydd yn y sector aciwt heb newidiadau radical".<sup>23</sup>

Derbyniodd y Gweinidog honiad Conffederasiwn GIG Cymru, a ddywedodd fod gwneud arbedion yn anoddach o flwyddyn i flwyddyn gan fod y materion haws wedi eu datrys. Serch hynny, roedd yn credu bod perfformiad cyffredinol GIG Cymru o ran cyflawni'r swm angenrheidiol o arbedion wedi bod yn nodedig. Nododd y Gweinidog, yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, fod GIG Cymru wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd o £185 miliwn, sef dim ond £3 miliwn yn llai na'r hyn a gyflawnwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol.<sup>24</sup> Rhybuddiodd, fodd bynnag, na ellir disgwyl i bob rhan o'r system ddod o hyd i arbedion yn yr un modd â rhannau eraill o'r system, gan nodi Gwasanaeth Ambiwlans Cymru fel enghraifft. Yn yr achos hwn, eglurodd y Gweinidog fod cyllid cyfalaf ychwanegol ar gael i gynorthwyo ei ymdrechion i sicrhau arbedion drwy wella effeithlonrwydd, er enghraifft, drwy foderneiddio ei fflyd o gerbydau.<sup>25</sup>

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gwaith caled sydd wedi cael ei wneud gan GIG Cymru i sicrhau effeithlonrwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'n parhau i fod yn amlwg, fodd bynnag, bod angen gwneud newidiadau sylweddol i wasanaethau er mwyn cyflawni arbedion y dywed Ymddiriedolaeth Nuffield eu bod yn angenrheidiol er mwyn cynnal gwasanaethau yng Nghymru.

## 11. Ymglyfreitha a'r gronfa risg

Mae cyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 yn cynnwys darpariaethau sy'n cydnabod rhwymedigaeth i dalu costau penodol yn y dyfodol. Dengys nodyn 18 fod £593.8 miliwn o'r £605 miliwn mewn darpariaethau Llywodraeth Cymru yn ymwneud â Chronfa Risg Cymru y GIG, sy'n ymwneud yn bennaf â hawliadau am esgeulustod meddygol neu esgeulustod cyflogwyr. Mae hyn wedi cynyddu'n sylweddol o £521 miliwn yn 2012-13.

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, eglurodd swyddogion, o dan reolau archwilio berthnasol, fod angen gwneud darpariaethau yng Nghronfa Risg Cymru, nid

---

<sup>23</sup> Archwilydd Cyffredinol Cymru, [GIG Cymru Trosolwg o Berfformiad Ariannol a Pherfformiad Gwasanaethau 2013-14](#), Hydref 2014

<sup>24</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Drafft o Gofnod y Trafodion \[para 150\]](#), 16 Hydref 2014

<sup>25</sup> Ibid, , [Drafft o Gofnod y Trafodion \[paragraffau 151-152\]](#), 16 Hydref 2014

yn unig ar gyfer y flwyddyn gyfredol, ond ar gyfer y dyfodol. Nodwyd bod yr effaith wirioneddol mewn unrhyw flwyddyn ariannol unigol ar gyfer cronfa risg Cymru oddeutu £70 miliwn, sy'n cael ei gynnwys o fewn cyllidebau presennol. Nodwyd bod y swm mwy yn ymwneud â chyfnod o oddeutu degawd.<sup>26</sup>

Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael dadansoddiad pellach yn ymwneud â maint a lefel y setliadau yn ystod y flwyddyn a wnaed yn erbyn y gronfa risg yn y blynyddoedd diwethaf, fel y gofynnwyd yn ystod y cyfarfod.

---

<sup>26</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Drafft o Gofnod y Trafodion \[paragraffau 132-133\]](#), 16 Hydref 2014

## ATODIAD B - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru  
National  
Assembly for  
Wales

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Children, Young People and Education Committee



Bae Caerdydd / Cardiff Bay  
Caerdydd / Cardiff  
CF99 1NA

David Rees AC  
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal  
Cymdeithasol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

15 Hydref 2014

Annwyl David

### Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014–15

Ysgrifennodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 14 Awst i geisio gwybodaeth am y dyraniadau cyllideb o fewn ei bortffolio. Atebodd y Gweinidog ar 2 Hydref.

Cytunodd y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 9 Hydref y dylwn ysgrifennu atoch i dynnu sylw eich Pwyllgor at nifer o faterion sy'n ymwneud ag ymateb y Gweinidog, cyn eich sesiwn graffu gyda'r Gweinidog. Bydd y Pwyllgor, wrth gwrs, yn ysgrifennu at y Gweinidog ar wahân i geisio rhagor o wybodaeth am y materion hyn, ond byddwn yn ddiolchgar pe gallech, os yn bosibl, godi rhai o'r materion hyn gyda'r Gweinidog.

- **£10m ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol:** pa fecanwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi ar waith i sicrhau bod cyfran briodol yn cael ei gwario ar blant;
- **Trosglwyddo £4.6m ar gyfer y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd i'r Grant Cynnal Refeniw:** pa gamau diogelu sydd wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwneud buddsoddiad parhaus yn y rhaglen newydd hon dros gyfnod o amser;

- **£3m ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol:** pa fecanwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi ar waith i sicrhau bod cyfran briodol yn cael ei gwario ar y ddeddfwriaeth fel y mae'n effeithio ar blant a phobl ifanc;
- **Trefniadau ariannu ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol:** o gofio bod trefniadau ariannu yn ôl disgresiwn y Bwrdd Iechyd Lleol ac nad oes oedran neilltuo cysylltiedig:
  - Sut y mae Llywodraeth Cymru yn asesu effaith penderfyniadau gwariant y BILL ar iechyd a lles plant;
  - Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith bosibl ar iechyd plant sy'n codi o Adolygiad Adnoddau'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn ysgrifennu at y Gweinidog ar nifer o faterion.

Yn gywir



**Ann Jones AC / AM**  
Cadeirydd / Chair

## Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

### Communities, Equality and Local Government Committee

**Jane Hutt AC**  
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y  
Llywodraeth

Bae Caerdydd / Cardiff Bay  
Caerdydd / Cardiff  
CF99 1NA

24 Hydref 2014

Annwyl Weinidog

#### **Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, 2015-16**

Diolch i chi am ddod i'r Pwyllgor ar 9 Hydref 2014 i ateb cwestiynau ynghylch cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16, ac yn benodol ar broses ystyried cydraddoldeb yn y gyllideb.

Hoffai'r Pwyllgor dynnu'ch sylw at y materion isod, ac mae'n edrych ymlaen at gael eich ymateb, lle bo'n briodol, cyn gynted ag y bo modd.

Nodwn fod ystyriaeth y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft wedi'i seilio ar bedwar amcan gwaith craffu ariannol, sef fforddiadwyedd; blaenoriaethu; gwerth am arian; a phrosesau'r gyllideb. Rydym wedi defnyddio'r amcanion hyn yn ein hystyriaethau ninnau, lle'r oedd hynny'n briodol. Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Pwyllgor Cyllid i fwydo'u hystyriaeth gyffredinol nhw ar y gyllideb ddrafft ac fe'i cyhoeddir ar ein gwefan ni hefyd.



## 1. Cyfyngiadau'r gyllideb

Nodwn fod y prif ostyngiadau yn y gwariant y manylir arnyn nhw yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yn cynnwys gostyngiad sylweddol ar gyfer addysg ar ôl 16, addysg a dewis gyrfa, Rhaglen Cefnogi Pobl a Chymunedau yn Gyntaf. O gofio bod y rhain yn cynnwys meysydd allweddol o wariant ataliol, rydym yn poeni ynglŷn ag effaith y gostyngiadau hyn, yn enwedig felly ar grwpiau sy'n agored i niwed. Yn y cyd-destun hwn, ac oherwydd y cynnydd arwyddocaol mewn cyllid i iechyd a gofal cymdeithasol, rydym yn poeni ei bod yn ymddangos bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i wasanaethau iechyd cyn gwasanaethau atal, megis y Rhaglen Cefnogi Pobl.

Rydym yn poeni ynghylch effaith gyffredinol y gostyngiad o £10 miliwn i'r Rhaglen Cefnogi Pobl, effaith hyn ar gyflawni'r Rhaglen ac ar allu grwpiau sy'n agored i niwed i sicrhau cyngor a chymorth y mae angen dybryd amdanyn nhw. Yn ychwanegol, rydym yn amau nad oes digon o ystyriaeth wedi'i rhoi i'r goblygiadau ynglŷn â chostau gwasanaethau cyhoeddus eraill, gan gynnwys iechyd, yn sgil gostwng cyllid y Rhaglen. Gan hynny, byddem yn croesawu rhagor o fanylion gennyhych am unrhyw ddadansoddiad o'r costau a'r buddion a wnaed er mwyn bwydo'r penderfyniad i leihau cyllid y Rhaglen Cefnogi Pobl. Yn gysylltiedig â hyn, nodwn eich bod yn bwriadu gwneud asesiad o effaith y gostyngiad ariannol hwn ac fe fyddem yn croesawu manylion am hyn cyn gynted ag y byddant ar gael.

Yn ystod y sesiwn tystiolaeth, dywedasoeh fod codi lefelau sgiliau gweithlu Cymru yn allweddol o ran eich uchelgais o drechu tlodi. Er gwaethaf yr haerriad hwnnw, mae cyllid i addysg ar ôl 16 ac i Gyrfa Cymru wedi cael ei leihau. Rydym yn poeni y gallai'r gostyngiad yn yr arian hwn beri rhagor o anfantais i grwpiau sy'n cynnwys NEETs, grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl, sydd eisoes yn wynebu risg uwch o dlodi.

## 2. Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE) a'r Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA)

Gwyddom fod Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE) yn bodoli ers dwy flynedd bellach a'i fod, yn ôl eich tystiolaeth chi, wedi bod yn bur ddylanwadol yn barod, er na fydech chi o reidrwydd yn cael eich llywio gan y Grŵp. Gan hynny, rydym yn aneglur ynghylch rôl BAGE. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am ei rôl, ac yn enwedig i ba raddau y gall BAGE ddylanwadu ar ddatblygiadau yn y gyllideb ddrafft a'i effaith ar benderfyniadau ar y gyllideb derfynol ar draws portffolios Llywodraeth Cymru. Fel y cytunwyd yn y cyfarfod, fe fydden ni hefyd yn hoffi cael cofnodion holl gyfarfodydd BAGE, gan gynnwys y cyfarfod ar 23 Hydref pryd y deallwn y bydd y Grŵp yn cyfarfod i drafod cyllideb ddrafft 2015-16.

Rydym yn croesawu'r ffaith bod yr Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) cyntaf wedi'i gyhoeddi ac yn croesawu'r camau rydych chi wedi'u cymryd i wella'r broses o asesu effeithiau. Credwn fod yna gyfle i BAGE chwarae rhan fwy dylanwadol yn natblygiad yr SIIA, gan ddarparu dadansoddiad beirniadol o'r gyllideb ddrafft. Byddem yn hoffi ichi ystyried hynny cyn y gyllideb nesaf ac adrodd yn ôl inni ar ganlyniad eich ystyriaethau.

Yn olaf, hoffem hefyd ichi ystyried a oes yna le i BAGE wrth gydgasglu ac asesu asesiadau cyllidebau'r awdurdodau lleol, gyda golwg ar ddod o hyd i effaith gronol penderfyniadau ar gyllidebau ar grwpiau penodol ac adrodd yn ôl inni ar hyn.

Yn gywir

A handwritten signature in cursive script that reads "Christine Chapman".

**Christine Chapman AC / AM**

Cadeirydd / Chair

cc Jocelyn Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a  
Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government  
Committee

**Leighton Andrews AC**  
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Bae Caerdydd / Cardiff Bay  
Caerdydd / Cardiff  
CF99 1NA

24 Hydref 2014

Annwyl Weinidog

### **Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, 2015-16**

Diolch i chi am ddod i'r Pwyllgor ar 9 Hydref 2014 i ateb cwestiynau ynghylch cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 ynglŷn â llywodraeth leol.

Hoffai'r Pwyllgor dynnu'ch sylw at y materion isod, ac mae'n edrych ymlaen at gael eich ymateb, lle bo'n briodol, cyn gynted ag y bo modd.

Nodwn fod ystyriaeth y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft wedi'i seilio ar bedwar amcan gwaith craffu ariannol, sef fforddiadwyedd; blaenoriaethu; gwerth am arian; a phrosesau'r gyllideb. Rydym wedi defnyddio'r amcanion hyn yn ein hystyriaethau ninnau, lle'r oedd hynny'n briodol. Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Pwyllgor Cyllid i fwydo'u hystyriaeth gyffredinol nhw ar y gyllideb ddrafft ac fe'i cyhoeddir ar ein gwefan ni hefyd.

### **Y blaenoriaethau cyffredinol a gwariant ataliol**

Nodwn y gostyngiad yng nghyfanswm y cyllid ar gyfer Prif Grŵp Gwariant (MEG) Llywodraeth Leol rhwng 2014-15 a 2015-16 o £192.6 miliwn, sy'n cyfateb i 4.2 y cant yn nhermau arian parod a 5.7 y cant mewn termau real. Rydym yn cydnabod bod rhyw lefel o ostyngiad ariannol yn anochel yng nghyd-destun y cyfyngiadau ariannol presennol, ond rydym yn poeni ynghylch graddfa'r gostyngiad arfaethedig.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh  
Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee  
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service  
Ffôn / Tel : 029 2089 8429  
Ebost / Email : CELG.Committee@wales.gov.uk

Nodwn eich barn nad oes modd osgoi gostyngiad sylweddol yng nghyllideb llywodraeth leol a bod gostyngiadau ar draws portffolios y Gweinidogion yn amhosibl eu hosgoi yn gyffredinol. Er gwaethaf eich haerriad, rydym yn gwybod nad yw'r MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gweld gostyngiad ond ei fod yn hytrach wedi cael dyraniad ychwanegol o £225.7 miliwn yn 2015-16 (3.5 y cant).

Byddwch yn gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio at yr angen i fynd i'r afael â phwysau yn y gwasanaeth iechyd fel rheswm dros lefel y toriadau yng nghyllideb llywodraeth leol. Er y gallai hynny fod yn wir, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill wedi haeru bod gwasanaethau llywodraeth leol, a gwasanaethau cymdeithasol yn benodol, o dan bwysau tebyg. Nid ydym yn dadlau ynglŷn â manteision gwario ar iechyd, ond rydym yn poeni nad yw Llywodraeth Cymru wedi dangos yn ddigon da sut mae'n arddel ymagwedd strategol at gyllidebu, yn enwedig felly o ran gwariant ataliol.

Rydym yn rhannu'ch barn chi bod cyllid i lywodraeth leol er mwyn cefnogi cymunedau a gwasanaethau lleol yn chwarae rhan allweddol o ran gwariant ataliol. Rydym yn poeni felly, o gofio graddfa'r gostyngiad yng nghyllid llywodraeth leol, y bydd llawer o'r gwasanaethau hyn yn dioddef yn ddiostur, gan gynnwys y rhai sydd o ran eu natur yn ataliol.

## **Blaengynllunio**

Yn eich tystiolaeth, dywedasoich fod llywodraeth leol yng Nghymru, yn ystod y tair blynedd cyntaf ar ôl Adolygiad Gwariant 2010, wedi cael ei hamddiffyn rhag y toriadau gwaethaf mewn arian cyhoeddus. Dywedasoich hefyd ei bod wedi cael ei gwneud yn glir i lywodraeth leol mai galluogi llywodraeth leol i ailfeddwl a diwygio gwasanaethau er mwyn paratoi at heriau'r dyfodol oedd bwriad yr amddiffyniad hwnnw.

Er ein bod yn cydnabod yr uchod, rydym yn ymwybodol bod y gostyngiad yng nghyllideb llywodraeth leol gryn dipyn yn fwy na'r hyn a nodwyd yn ffigurau dangosol 2015-16. Mae hyn wedi bod yn wir ddwy flynedd o'r bron. Dywedasoich wrthym fod eich rhagflaenydd wedi rhybuddio llywodraeth leol ym mis Mehefin y gallen nhw ddisgwyl gweld setliad anodd iawn. Serch hynny, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi codi pryder bod cynlluniau ariannol cadarn yn amhosibl pan nad oes modd dibynnu ar y ffigurau dangosol a bod graddfa'r gostyngiadau yn gwaethygu hyn ymhellach. Gan hynny, rydym yn poeni am lefel yr amrywio rhwng dyraniadau dangosol llywodraeth leol a'u dyraniadau gwirioneddol, ac ar ba sail y mae hyn yn galluogi'r awdurdodau lleol i gynllunio'n effeithiol yn y tymor canolig.

## **Diwygio llywodraeth leol**

O gofio arwyddocâd y diwygio arfaethedig ym maes llywodraeth leol a'i oblygiadau posibl o ran cyflawni gwasanaethau llywodraeth leol yn y dyfodol, nid yw'n syndod bod y gwaith diwygio a'r uniadau arfaethedig wedi bod yn rhan o'n hystyriaethau ni.

Nodwn y gwahaniaethau yn yr amcangyfrifon o gostau'r uniadau arfaethedig ymysg yr awdurdodau lleol a ddarparwyd gan Gomisiwn Williams a chan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Gwyddom nad yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi ei hamcangyfrif hithau eto. Credwn y byddai'r penderfyniad i fwrw ymlaen â'r rhaglen o uniadau wedi bod yn well o'i seilio ar ddadansoddiad cynhwysfawr a chadarn o'r costau a'r buddion, gyda golwg ar ddangos sut y bydd y rhaglen yn cynnig gwerth am arian i ddinasyddion Cymru. Er hynny, rydym yn cydnabod y ceir cyfleoedd i ystyried y materion hyn fel rhan o'r gwaith craffu ehangach ar y Bil arfaethedig a fydd yn rhoi'r rhaglen uno ar waith. Rydym yn disgwyl yn eiddgar am weld yr Aseiad Effaith Rheoliadol (RIA) drafft yn cael ei gyhoeddi i gyd-fynd â'r Bil. Wrth edrych ymlaen, byddem yn disgwyl i'r pwyllgor yn y Cynulliad a fydd yn gyfrifol am ystyriaethau Cyfnod 1 ar y Bil ar ôl iddo gael ei gyflwyno roi ystyriaeth lawn i'r RIA fel rhan o'r broses graffu.

Rydym yn cydnabod y gwaith sydd eisoes ar y gweill i baratoi at y diwygio a bod yr awdurdodau lleol wrthi'n ystyried a ddylid manteisio ar uniadau gwirfoddol cyn i'r brif raglen uno gael ei chyflwyno. Roedd yn dda gennym glywed bod adnoddau ar gael i helpu uniadau gwirfoddol, er ein bod wedi'n siomi nad oeddech yn fodlon rhoi ffigurau penodol inni. Dywedasoch ei bod yn fwriad gennych, ar ôl i'r cynigion ar gyfer uniadau gwirfoddol ddod i law, ymgymryd ag aseuadau fesul achos o'r hyn a allai fod yn angenrheidiol a'r hyn y gallai fod yn ymarferol ichi ei gefnogi ac y byddech yn disgwyl trafod hynny gyda'r Gweinidog Cyllid yn y dyfodol. **Hoffem ichi roi rhagor o fanylion, ar y cyfle cyntaf sydd ar gael, o'r trefniadau ariannol yr ydych yn bwriadu eu sefydlu i roi cymhellion i'r awdurdodau uno o'u gwirfodd. Byddem hefyd yn hoffi cael manylion unrhyw gymhellion eraill yr ydych yn fodlon eu cynnig i'r awdurdodau lleol fel rhan o'r broses uno wirfoddol.**

Ar bwynt mwy cyffredinol, gofynnodd y Pwyllgor ichi egluro goblygiadau'r rhaglen uno ar gyfer partneriaethau sydd wedi'u sefydlu a gweithgareddau cydweithredol sy'n digwydd y tu allan i fap arfaethedig yr awdurdodau unedig a argymhellwyd gan Gomisiwn Williams ("map Williams"). Dywedasoch nad oedd o reidrwydd yn wir y byddai angen i gydweithredu ddod i ben yng nghyd-destun set o uniadau ar sail ôl troed Williams. Rydym yn croesawu'r sicrwydd hwn ac yn credu ei bod yn bwysig sicrhau, lle mae partneriaethau a chydweithredu llwyddiannus yn bodoli, fod yr awdurdodau'n gallu eu cadw. Gan hynny, **byddem yn croesawu rhagor o fanylion gennych am sut rydych yn rhag-weld y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol.**

## Y dreth gyngor

Rydym yn ymwybodol bod cynghorau Cymru wedi gosod cynnydd o 4.2 y cant ar gyfartaledd yng nghyfradd y dreth gyngor leol yn y flwyddyn ariannol bresennol. O gofio'r gostyngiad sylweddol yng nghyllid llywodraeth leol a'r pwysau parhaus sy'n wynebu'r sector, mae rhagor o gynnydd yn y dreth gyngor yn y mwyafrif o'r awdurdodau yn anochel yn 2015-16. Cyn hyn rydych chi wedi dweud y bydd y cyllid i gefnogi cynlluniau lleihau'r dreth gyngor ar gyfer 2015-16 yn aros yn ddigyfnewid, sef £22 miliwn. Deallwn y bydd disgwyl i'r awdurdodau wneud iawn am y diffyg cynyddol, yn unol â'r trefniadau presennol, sy'n golygu rhagor o bwysau ariannol eto ar lywodraeth leol.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Christine Chapman". The script is cursive and fluid, with the first name "Christine" written in a larger, more prominent hand than the surname "Chapman".

**Christine Chapman AC / AM**

Cadeirydd / Chair

cc Jocelyn Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a  
Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government  
Committee

**Lesley Griffiths AC**  
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu  
Tlodi

Bae Caerdydd / Cardiff Bay  
Caerdydd / Cardiff  
CF99 1NA

24 Hydref 2014

Annwyl Weinidog

### **Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, 2015-16**

Diolch i chi am ddod i'r Pwyllgor ar 9 Hydref 2014 i ateb cwestiynau ynghylch cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16.

Hoffai'r Pwyllgor dynnu'ch sylw at y materion isod, ac mae'n edrych ymlaen at gael eich ymateb, lle bo'n briodol, cyn gynted ag y bo modd.

Nodwn fod ystyriaeth y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft wedi'i seilio ar bedwar amcan gwaith craffu ariannol, sef fforddiadwyedd; blaenoriaethu; gwerth am arian; a phrosesau'r gyllideb. Rydym wedi defnyddio'r amcanion hyn yn ein hystyriaethau ninnau, lle'r oedd hynny'n briodol. Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Pwyllgor Cyllid i fwydo'u hystyriaeth gyffredinol nhw ar y gyllideb ddrafft ac fe'i cyhoeddir ar ein gwefan ni hefyd.

### **Trechu tlodi**

Rydym yn credu ei bod yn bwysig gweld cysylltiadau clir rhwng dyraniadau yn y gyllideb a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (TPAP). Nodwn eich haerriad bod y cyfraniad at Drechu Tlodi yn un ffactor pendant wrth benderfynu ar y newidiadau a oedd i'w gwneud rhwng y gyllideb ddangosol ar gyfer 2015-16 a'r gyllideb ddrafft a bod cyllidebau wedi'u diogelu o ran y rhaglenni sy'n cyfrannu at

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh  
Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee  
Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth/  
Policy and Legislation Committee Service  
Ffôn / Tel : 0292089 8032

yr agenda gwrthdlodi gymaint â phosibl. Er ein bod yn croesawu hyn, rydym yn ymwybodol o ostyngiadau yn y dyraniadau yn y gyllideb ar draws portffolios y Gweinidogion a allai gael effaith ar gyflawni'r Cynllun Gweithredu. Y gostyngiad amlycaf ymysg y rhain yw'r gostyngiad yng nghyllid Cymunedau yn Gyntaf, sy'n un o'r rhaglenni allweddol yn y Cynllun Gweithredu.

Gwyddom fod yna adroddiad blynyddol ar gynnydd tuag at gyflawni'r Cynllun Gweithredu. Gobeithio y bydd yn ddefnyddiol fel ffordd i helpu i fonitro effaith penderfyniadau ynghylch y gyllideb ar y cynnydd ac rydym yn bwriadu monitro hyn drwy waith craffu yn ystod y flwyddyn.

## **Cymunedau yn Gyntaf**

Roedd y Pwyllgor yn awyddus i weld cysylltiad pendant rhwng buddsoddi yn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a deilliannau clir, mesuradwy, er mwyn i werth am arian gael ei ddangos.

Mae'r angen am waith monitro effeithiol ar sut mae cyllid y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei wario, ac am ddeilliannau clir a mesuradwy, wedi bod yn thema barhaus yn ein hystyriaethau ni ar y rhaglen. Mae hyn yn ganolog yng nghyd-destun y cyfyngiadau ariannol presennol, pan fo'n fwyfwy pwysig dangos gwerth am arian.

Gwyddom fod y Fframwaith Deilliannau a'r mesurau perfformiad wedi'u cytuno a'u bod yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i fesur cynnydd. Rhoddodd eich rhagflaenydd wybodaeth berfformiad inni a oedd wedi'i seilio ar nifer yr ymyriadau, ond nid ydym yn glir sut mae'r data hwn yn cael ei ddefnyddio i fesur effeithiolrwydd y rhaglen. Gan hynny, byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ar sut mae'r rhaglen yn cael ei monitro, nid yn unig yn nhermau nifer yr ymyriadau ond o ran ansawdd y deilliannau.

O'r 100 o ddangosyddion perfformiad ar gyfer y rhaglen, dywedasoch wrthym fod yna 20 o ddangosyddion allweddol sy'n mesur y deilliannau caletaf a bod cais wedi'i wneud i glystyrau Cymunedau yn Gyntaf ganolbwyntio ar y rhain. Cytunasoch y byddech yn rhoi'r dangosyddion allweddol hyn inni pan fydden nhw ar gael.

Dywedasoch hefyd fod y gwaith monitro'n cael ei fireinio ymhellach er mwyn cysoni'r mesuriadau perfformiad ar draws Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Hoffem ichi adrodd yn ôl ar ganlyniad y gwaith hwn.

Yn sgil ein hystyriaeth ar gyllideb y llynedd pan gododd y Pwyllgor bryderon gyda'ch rhagflaenydd ynghylch diffyg gwaith monitro a chloriannu ar y rhaglen, dywedwyd wrthym y byddai adroddiad cloriannu ynghylch rhaglen ddiwygiedig Cymunedau yn Gyntaf ar gael ym mis Gorffennaf 2014. Hoffem gael gwybodaeth am ganlyniad y gwaith cloriannu hwn cyn gynted â phosibl.

## **Cefnogi Pobl a digartrefedd**



Rydym yn poeni ynghylch y gostyngiad cyffredinol o £10 miliwn i'r Rhaglen Cefnogi Pobl, ac yn enwedig yr effaith y gallai'r gostyngiad hwn mewn gwariant ataliol ei chreu ar ddigartrefedd. Mae hyn yn cyd-fynd â chynnydd yn y dyraniad yn y gyllideb ar gyfer Digartrefedd, sy'n cynnwys £4.9 miliwn i helpu i roi'r darpariaethau ynghylch digartrefedd yn Neddf Tai (Cymru) 2014 ar waith. Nodwn haerid eich swyddog y byddai trefnu blaenoriaethau atal digartrefedd fel hyn yn arwain at fanteision hirdymor "that were worth taking that short-term hit [...] on the budget more generally". Er hynny, rydym yn dal yn bryderus y gallai'r gostyngiad mewn maes allweddol mewn gwariant ataliol negyddu unrhyw fantais bosibl a allai godi o'r cynnydd yn y cyllid ar gyfer atal digartrefedd.

Nodwn fod yr awdurdodau lleol a Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl yn paratoi i ymdrin â chanlyniadau'r gostyngiad yn y gyllideb. Rydym yn croesawu'ch ymrwymiad i gyhoeddi gwybodaeth am yr archwiliadau unigol o wasanaethau Cefnogi Pobl ac ar arolwg hydredol Cefnogi Pobl sy'n edrych ar effeithiau'r rhaglen yn y tymor hirach. Hoffem ichi roi'r wybodaeth hon inni maes o law.

## **Y Cyflenwad Tai**

Rhoddodd y Pwyllgor groeso i'r adolygiad o'r Grant Tai Cymdeithasol sydd newydd ddechrau ac a ddylai wella effeithlonrwydd proses y grant. Mae'r Pwyllgor yn gweld buddsoddiadau cyfalaf mewn tai fel cyfle, nid yn unig i sicrhau rhagor o dai fforddiadwy, ond i sicrhau manteision sylweddol i gymunedau, a nododd fod Gwerth Cymru'n cael ei ddefnyddio fel ffordd i fesur hyn. Yn fwy cyffredinol, mae'r Pwyllgor yn gweld cyfle i integreiddio tai a gwaith adfywio cymunedol â rhaglen adfywio Lleuedd Llewyrchus Llawn Addewid.

Nododd y Pwyllgor yr wybodaeth fonitro reolaidd sy'n dod i law ar gynllun Cymorth i Brynu - Cymru, a'r archwiliad blynyddol, yn ogystal ag arfarniad allanol arfaethedig.

## **Troi Tai'n Gartrefi**

Rydym yn croesawu llwyddiant cynllun Troi Tai'n Gartrefi a'r cynnydd arwyddocaol sydd wedi'i wneud hyd yn hyn tuag at y targed o aildechrau defnyddio 5,000 o safleoedd gwag. Rydyn ni hefyd yn croesawu'r £10 miliwn ychwanegol i'r cynllun yn 2015-16, y dywedasoeh ei fod yn cael ei ddarparu er mwyn ateb y cynnydd yn y galw am fenthyciadau yn sgil llwyddiant y cynllun.

Dyweddodd eich swyddog fod arfarniad o'r cynllun wedi dechrau. Rydym yn croesawu'r bwriad y dylai'r arfarniad gynnwys ystyried a ddylai fod yn ofynnol i landlordiaid eiddo ar rent sydd wedi elwa o'r cynllun godi rhent fforddiadwy. Hoffem gael manylion canlyniad yr arfarniad cyn gynted ag y byddant ar gael.

Nodwn nad yw'r cynllun ar gael i berchen-feddianwyr. Credwn y byddai'n dda ymestyn y cynllun i berchen-feddianwyr o dan amgylchiadau penodol. Rydym yn croesawu'ch ymrwymiad i ystyried y mater ac yn gofyn ichi adrodd yn ôl ar ganlyniad eich ystyriaethau ar y cyfle cyntaf.

## **Addasu a thrwsio cartrefi**

Rydyn ni, a'n rhagflaenwyr, wedi ymddiddori'n fawr mewn gwaith i addasu cartrefi dros nifer o flynyddoedd, yn fwyaf diweddar yn ein hadroddiad ym mis Gorffennaf 2013. Nodwn fod adolygiad Llywodraeth Cymru ei hun ar fin cyflwyno adroddiad cyn hir a'ch bod chi wedi dweud y caiff unrhyw fân newidiadau yn y system addasu eu gwneud drwy gyfrwng eich cyllideb adrannol gan nad oes dyraniad penodol wedi'i wneud at y diben. Byddwn yn disgwyl cael canlyniadau'r adolygiad er mwyn gweld a oes yna oblygiadau ariannol.

Nododd y Pwyllgor gyfnod peilot y cynllun Benthyciadau Gwella Cartrefi, a fydd yn targedu pobl sy'n agored i niwed, gan gynnwys pobl hŷn, y mae arnyn nhw angen cymorth ynglŷn â gwaith trwsio, â diddordeb.

Rydym yn bwriadu monitro'r ddau faes uchod yn ofalus i sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei sicrhau.

Yn gywir

**Christine Chapman AC / AM**  
Cadeirydd / Chair



Cc. Jocelyn Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a  
Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government  
Committee

**Ken Skates AC**  
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant,  
Chwaraeon a Thwristiaeth

Bae Caerdydd / Cardiff Bay  
Caerdydd / Cardiff  
CF99 1NA

24 Hydref 2014

Annwyl Weinidog

### **Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, 2015-16**

Diolch i chi am ddod i'r Pwyllgor ar 9 Hydref 2014 i ateb cwestiynau ynghylch cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ynglŷn â diwylliant a chwaraeon ar gyfer 2015-16.

Hoffai'r Pwyllgor dynnu'ch sylw at y materion isod, ac mae'n edrych ymlaen at gael eich ymateb, lle bo'n briodol, cyn gynted ag y bo modd.

Nodwn fod ystyriaeth y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft wedi'i seilio ar bedwar amcan gwaith craffu ariannol, sef fforddiadwyedd; blaenoriaethu; gwerth am arian; a phrosesau'r gyllideb. Rydym wedi defnyddio'r amcanion hyn yn ein hystyriaethau ninnau, lle'r oedd hynny'n briodol. Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Pwyllgor Cyllid i fwydo'u hystyriaeth gyffredinol nhw ar y gyllideb ddrafft ac fe'i cyhoeddir ar ein gwefan ni hefyd.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh  
Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee  
Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth/ Policy and Legislation Committee Service  
Ffôn / Tel : 0292089 8032

## 1. Y blaenoriaethau cyffredinol

Nodwn y gostyngiadau yn y gyllideb ddrafft yn y cyllid i Feysydd Rhaglenni Gwariant sector y celfyddydau, amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd a'r cyfryngau a chyhoeddi. Rydym yn ymwybodol bod gostyngiadau ariannol yn anochel yng nghyd-destun y cyfyngiadau ariannol presennol, ond mae gennyn ni bryderon ynghylch effaith y gostyngiadau hyn ar gyfranogiad grwpiau difreintiedig mewn diwylliant a threftadaeth.

Rydym yn credu y dylai dealltwriaeth o effeithiau posibl newidiadau arfaethedig mewn cyllid fod yn rhan hanfodol o broses cynllunio'r gyllideb. Gan hynny, dylai Llywodraeth Cymru wneud asesiad o'r effeithiau hyn cyn i benderfyniadau ar y gyllideb gael eu gwneud. Yn erbyn y cefndir hwn, calondid i ni oedd clywed gennych fod y broses benderfynu yn un "strwythuredig iawn" ac yn cynnwys ymgynghori helaeth â'r holl gyrff sy'n cael eu noddi. Dywedasochn fod y gyrff i gyd wedi cael cais am wybodaeth wedi'i seilio ar senarios ar gyfer gostwng eu cyllidebau, gan nodi beth fyddai'r effeithiau, gan gynnwys effeithiau ar gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu ac ystyriaethau ynglŷn â chydaddoldeb. Rhoddodd eich swyddog enghraifft bendant o fan lle'r oedd y broses hon wedi helpu i lunio'ch penderfyniad i beidio â lleihau cyllid y Llyfrgell Genedlaethol ymhellach.

## 2. Sector y celfyddydau

Nodwn fod Maes Rhaglen Gwariant sector y celfyddydau wedi'i leihau o £33.8 miliwn yn 2014-15 i £32.9 miliwn yn 2015-16, sef gostyngiad o 4.1% mewn termau real. Mae gennyn ni bryderon am effaith y gostyngiad hwn, yn enwedig felly y gostyngiad yng nghyllid Cyngor Celfyddydau Cymru, ar lefelau cyfranogi ymysg y grwpiau mwyaf agored i niwed, megis pobl ag anableddau a'r grwpiau sosio-economaid isaf. Wrth geisio ymateb i'r mater hwn, dywedasochn wrthym nad oedd y gydberthynas rhwng cyfranogi a refeniw yn glir, a bod yna gysylltiad rhwng lefelau cyfranogi a nifer fawr o ffactorau eraill. Gwnaethoch haerid y byddai gwaith sy'n deillio o'r adolygiadau diweddar ar Ddiwylliant a Thlodi, a'r Celfyddydau mewn Addysg, yn helpu i ddenu ac ennyn diddordeb cyfranogwyr newydd, gan gynnwys pobl ifanc a theuluoedd. Rydym yn disgwyl yn eiddgar am y gwaith hwn a byddwn yn dymuno mynd ar ôl y cynnydd ynglŷn â'r mater fel rhan o'n gwaith craffu yn ystod y flwyddyn.

Dywedasochn hefyd y byddai llythyr cylch gorchwyl Cyngor y Celfyddydau yn ailadrodd blaenoriaethau'r Llywodraeth er mwyn sicrhau eich bod yn milwrio yn erbyn effeithiau andwyol ar grwpiau a oedd yn agored i niwed.

Mae dogfen Naratif y Gyllideb Ddrafft yn dweud bod cyllid ychwanegol wedi'i roi i Celfyddydau a Busnes Cymru o'r gyllideb Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth er mwyn iddyn nhw annog y gymuned fusnes i fuddsoddi yn y celfyddydau ac i helpu sector y celfyddydau i ddod yn fwy cynaliadwy gan ganolbwyntio'n fwy ar fusnes. Dywedasochn fod Celfyddydau a Busnes Cymru wrthi'n rhoi'r dangosyddion perfformiad allweddol ichi i ddisgrifio'r hyn y maen nhw'n bwriadu ei gyflawni â'r cyllid hwn. Byddem yn ddiolchgar am gael gweld y rhain maes o law.

### **3. Amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd**

Nodwn fod Maes Rhaglen Gwariant amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd wedi'i leihau o £44.4 miliwn yn 2014-15 i £40.9 miliwn yn 2015-16, sef gostyngiad o 9.3 % mewn termau real. Gan gymryd y gostyngiad yn y grant cymorth refeniw i ystyriaeth, mae gennyn ni bryderon ynghylch effaith y gostyngiad yng nghyllid CyMAL o ryw 12-13 y cant ar y cymorth y mae'r awdurdodau lleol yn ei roi i'w llyfrgelloedd.

I fynd i'r afael â hyn, dywedodd eich swyddog wrthym y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i gydleoli rhai llyfrgelloedd er mwyn cynnal niferoedd yr ymwelwyr yn sector y llyfrgelloedd, a'u codi, gobeithio. Yn ychwanegol, dywedasoch chithau mai parhau i helpu cynghorau lleol i "ail-becynnu" eu gwasanaethau llyfrgelloedd, lle'r oedd hynny'n bosibl, fyddai rhan fawr o waith CyMAL y flwyddyn nesaf.

Rydym yn edrych ymlaen at yr adroddiad sydd yn yr arfaeth ar yr Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru ac at eich ymateb chi i'n hadroddiad. Nodwn fod CyMAL wrthi'n casglu gwybodaeth am sefyllfa ariannol gyfredol yr awdurdodau lleol o ran amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau. Byddem yn hoffi ichi roi manylion inni am hyn, ac am sut y bydd hyn yn dylanwadu ar ddyraniadau cyllideb a pholisi Llywodraeth Cymru.

### **4. Yr amgylchedd hanesyddol a naturiol**

Dywedasoch wrthym fod y gostyngiad yn y dyraniad i Faes Rhaglen Gwariant yr amgylchedd hanesyddol a naturiol yn adlewyrchu'r uchelgais y dylai incwm Cadw gynyddu o ganlyniad i gynnydd a ragwelir yn nifer yr ymwelwyr. Dywedasoch hefyd eich bod yn bwriadu edrych ar roddion digidol mewn safleoedd di-staff y caniateir ymweld â nhw'n ddi-dâl, a hynny fel ffordd i gynyddu'r derbyniadau refeniw. Hoffem gael rhagor o fanylion y gwaith hwn wrth iddo fynd yn ei flaen.

Dywedasoch eich bod yn credu y gallai safleoedd Cadw ddenu rhagor o ymwelwyr o blith grwpiau difreintiedig, er gwaethaf y gostyngiad yn y cyllid, a hynny o ganlyniad i waith a fyddai'n deillio o'r adolygiadau o Ddiwylliant a Thlodi a'r Celfyddydau mewn Addysg yn benodol. Dywedasoch hefyd fod cynllun Drysau Agored a phrisiau mynediad fforddiadwy i safleoedd Cadw yn chwarae rhan bwysig mewn ehangu mynediad. Byddem yn ddiolchgar am gael cadarnhad o sut mae'r gyllideb ddrafft yn darparu ar gyfer y cynlluniau hyn.

Rydym yn falch o glywed bod trefniadau wedi'u gwneud i fonitro ymwelwyr â safleoedd Cadw yn ôl grwpiau sosio-economaidd. Rydym yn gofyn am eglurhad a fydd y data sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio i fonitro effaith newidiadau yng nghyllid Cadw ar niferoedd ymwelwyr fesul grŵp sosio-economaidd, ac os felly, sut.

### **5. Y cyfryngau a chyhoeddi**

Nodwn mai dyma'r ail flwyddyn y mae cyllid Cyngor Llyfrau Cymru wedi'i ostwng a bod y gostyngiad arfaethedig yn £100,000 yn fwy na'r hyn a nodwyd yn ffigurau dangosol 2015-16. Er ichi gydnabod bod hyn yn her o bwys i'r Cyngor Llyfrau,

rhoesoch haeriad eich bod yn hyderus y byddai'n dal yn gallu cefnogi'r diwydiant cyhoeddi yn y ddwy iaith. Byddem yn croesawu eglurhad o'r seiliau y gwnaethoch yr haeriad arnyn nhw.

Dywedodd eich swyddog eich bod wedi trafod blaenoriaethau gyda'r Cyngor Llyfrau ac y byddech yn cynnal rhagor o drafodaethau am sut y byddai'n ymdopi o ran lleihau effaith gwasanaethau. Byddai'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn Llythyr Cylch Gorchwyl y Cyngor Llyfrau ar gyfer 2015-16. Ar nodyn tebyg, cytunasoch y byddech yn rhoi manylion inni am y newidiadau yn y weithdrefn gomisiynu.

## **6. Chwaraeon a gweithgarwch corfforol**

Gwyddom fod Llywodraeth Cymru, yn y diweddariad diwethaf ar y *Rhaglen Lywodraethu*, wedi cydnabod bod angen gwneud mwy i gynyddu gweithgarwch corfforol. Gwyddom hefyd am y gostyngiadau arwyddocaol yng nghyllid llywodraeth leol a goblygiadau'r gostyngiadau hyn o ran darparu gwasanaethau anstatudol, megis cyfleusterau hamdden. Gan gymryd y rhain i ystyriaeth, mae gennyn ni bryderon am y gostyngiad mewn refeniw i'r Maes Rhaglen Gwariant chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Dywedasoch wrthym eich bod wrthi'n datblygu pecyn cymorth ar-lein i awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol, gan anelu at roi'r wybodaeth a'r cymorth yr oedd eu hangen i gynnal cyfleusterau chwaraeon a hamdden. Rydym yn edrych ymlaen at weld y pecyn yn cael ei gyhoeddi a byddem yn croesawu gwybodaeth am sut rydych chi'n bwriadu monitro defnydd ac effeithiolrwydd y pecyn.

Yn olaf, hoffem gael ffigurau ar y gwahaniaeth rhwng y ddau ryw o ran y cyfraddau cyfranogi mewn chwaraeon ac o ran y gwariant ar chwaraeon.

Yn gywir

**Christine Chapman AC / AM**

Cadeirydd / Chair



cc Jocelyn Davies AM, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid